The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Cais gan Liverpool Bay CCS Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Piblinell Carbon Deuocsid HyNet**

**Gwrandawiad Mater Penodol 3 (ISH3) Gwrandawiad wedi'i bentyrru ar faterion Amgylcheddol a'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu**

**Dyddiad:** 9 Awst 2023

**Lleoliad:** The Crowne Plaza, Trinity Street, Caer CH1 2BD & Cyfarfod Rhithwir Cyfunol, drwy Microsoft Teams

**Pwyntiau Gweithredu**

| Rhif. | Parti | Gweithred | Dyddiad Cau |
|---|---|---|---|
| ISH3-AP1 | Yr Ymgeisydd | Gofynnir i'r Ymgeisydd egluro unrhyw wahaniaethau (neu amrywiadau) yn y ffigurau Gwerth Gros Ychwanegol 'blynyddol' a gyflwynir ar dudalen 2 a thudalen 15 y ddogfen gais [REP1-046] - Effeithiau Economaidd Posibl Prosiect Gogledd-orllewin HyNet. | Dyddiad Cau 7 (DC7), Dydd Mawrth 5 Medi 2023 |
| ISH3-AP2 | Yr Ymgeisydd | Gofynnir i'r Ymgeisydd egluro ymhellach a fydd darpariaeth 'banc hadau' wedi'i chynnwys naill ai yn y Cynllun Tirwedd a Rheoli Ecolegol Amlinellol (ac unrhyw adolygiad a sbardunwyd gan Ofyniad 11) a/neu'r ddogfen Cofrestr Gweithredoedd ac Ymrwymiadau Amgylcheddol (REAC). Cafodd darpariaeth banc hadau ei annog yn flaenorol mewn cyflwyniadau yn gynharach yn yr Archwiliad, a gofynnir am ragor o gyfiawnhad am unrhyw hepgoriad posibl o ddarpariaeth o'r fath. | Dyddiad Cau 7 (DC7), Dydd Mawrth 5 Medi 2023 |

**Gwrandawiad Caffael Gorfodol 2 (CAH2)**

**Dyddiad:** 10 Awst 2023

**Lleoliad:** The Crowne Plaza, Trinity Street, Caer CH1 2BD & Cyfarfod Rhithwir Cyfunol, drwy Microsoft Teams

**Pwyntiau Gweithredu**

| Rhif. | Parti | Gweithred | Dyddiad Cau |
|---|---|---|---|
| CAH2-AP1 | Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer | Cyflwyno copi o'r Cytundeb Cyfreithiol i'r Archwiliad, a gwblhawyd o dan Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n ymwneud ag Encirc Ltd ac sy'n gofyn am ddefnyddio'r seidinau rheilffordd ar gyfer symud nwyddau a mewnforio deunyddiau crai. | Dyddiad Cau 7 (DC7), Dydd Mawrth 5 Medi 2023 |
| CAH2-AP2 | Yr Ymgeisydd | Yn ystod y CAH cytunodd yr Ymgeisydd i gyflwyno esboniad ysgrifenedig o'i ymateb i gwestiwn yr ExA ynghylch y Tir Categori Arbennig yn Llain rhif 17-02 a pha hawliau sy'n cael eu trefnu i alluogi gosod a gweithredu draen tanddaearol newydd wedi hynny. | Dyddiad Cau 7 (DC7), Dydd Mawrth 5 Medi 2023 |

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Gwrandawiad Llawr Agored (OFH)**

**Dyddiad:** 10 Awst 2023

**Lleoliad:** The Crowne Plaza, Trinity Street, Caer CH1 2BD & Cyfarfod Rhithwir Cyfunol, drwy Microsoft Teams

**Dim pwyntiau gweithredu yn codi o'r OFH.**